Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru Rhif 84 |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Gorffennaf 2026 |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.30yp–2.30yp |
| **Lleoliad:** | Hybrid – Wyneb yn wyneb yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth / ar-lein drwy gyfrwng Teams |
| **Yn bresennol:**<br><br>**(* = yn dirprwyo ar ran cynrychiolydd a enwir)** | **Yn bresennol:** Helen Donnan, Cymdeithas Ceffylau Prydain; Gareth Ludkin, Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol; Sue Mabbett, Ogofâu Cymru; Adrian Walls, Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru; Rachel Evans, Y Gynghrair Cefn Gwlad; Gwenda Owen, Beicio'r DU; Scott Ashworth, Ystadau Amddiffyn; Paula Brunt, Y Cerddwyr Anabl; David Evans, Ymddiriedolaeth Cwm Elan; Ian Mabberley, Fforymau Mynediad Lleol Cymru; Sam Dodgshon, LARA; Jonathan Hughes, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Simon Patton, Mountain Training Cymru; Phil Stone, Paddle Cymru; Jonathan Hughes, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Kate Ashbrook, Cymdeithas y Mannau Agored; Beverly Penney, Cymdeithas y Mannau Agored; Matthew Williams, Rebecca Brough, Cerddwyr Cymru; Pam Bell, Dyfroedd Cymru; Emma Edwards-Jones, Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru; Peter Rutherford, Parciau Cenedlaethol Cymru; Sarah Smith, Llywodraeth Cymru (Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd – Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth); William Somerfield, Llywodraeth Cymru (Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd – Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth); Andrew Howard a Steven Williams, Grŵp Gweithgareddau Awyr Agored Cymdeithas Chwaraeon Cymru; Angela Wetherall, Cymdeithas Ceffylau Prydain<br><br>**Cyflwyniadau:** Neil Jones, Cadwch Gymru'n Daclus; Helen Pye a Susan Jones, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Eben Muse, Cyngor Mynydda Prydain; Heather Martin a Rebecca Brough, Cerddwyr Cymru; Helen Donnan, Cymdeithas Ceffylau Prydain<br><br>**Cyflwyniadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):** Pete Frost a Fran Rolfe, gyda Dr Ben Reynolds, Urban Foundry, BCorp<br><br>**Ysgrifenyddiaeth a Chadeirydd CNC:** Lesley Jones, Cadeirydd; Gruff Owen, Rachel Parry, Jont Bulbeck<br><br>**Cyfieithydd – Trywydd:** Heledd Davies |
| **Ymddiheuriadau:** | Chris Mills, Afonydd Cymru; James Nevitt, Ystadau Amddiffyn;<br>Teleri Elias, Undeb Amaethwyr Cymru; Dr Catrin Jones, Un Llais Cymru; Steve Rayner, Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru; Matthew Teasdale, Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau, y siaradwyr a'r arsylwyr i'r cyfarfod, gan nodi mai dyma gyfarfod wyneb yn wyneb y fforwm am y flwyddyn, a bod aelodau hefyd yn ymuno ar-lein drwy gyfrwng Teams. Soniodd y cadeirydd am ba mor werthfawr oedd cyfarfod wyneb yn wyneb, a dywedodd y gellid ceisio adborth ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Dywedodd y cadeirydd y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol i gynnal cyfarfod â thema, gyda'r themâu a awgrymwyd yn cynnwys mannau gwyrdd lleol / trefol a'u rôl wrth gysylltu pobl â natur.

## 2. Cysylltu pobl â natur

Owen Derbyshire, Prif Swyddog Gweithredol / Neil Jones, Rheolwr Prosiect, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Cadwch Gymru'n Daclus

Cyflwynodd Neil Jones y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, rhaglen a ariennid gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi bod ar waith ers 2020, ac yn gweithio gyda chymunedau i adfer a gwella natur yn agos at ble yr oedd pobl yn byw. Nodwyd bod y rhaglen yn canolbwyntio yn benodol ar ardaloedd o amddifadedd uchel, ardaloedd trefol ac adeiledig, a threfi gwledig lle y gallai mynediad at natur fod yn gyfyngedig hefyd.
Clywodd yr aelodau fod Cadwch Gymru'n Daclus yn un o reolwyr y cynllun, ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, partneriaethau natur lleol, ac Un Llais Cymru. Nodwyd bod y rhaglen yn cynorthwyo ystod eang o sefydliadau cymunedol, gan gynnwys ysgolion, ysbytai, elusennau, clybiau chwaraeon, mannau addoli, gwasanaethau brys, a grwpiau lleol eraill.

Amlinellodd y cyflwyniad fodel y pecyn gardd gymunedol, gan gynnwys gerddi bwyd, gerddi bywyd gwyllt, gerddi bach, gerddi mawr, a phecynnau perllannau. Esboniodd Neil fod y broses ymgeisio wedi ei chynllunio i fod yn syml, gyda chymorth a oedd yn cynnwys ymweliadau â safleoedd, cynlluniau gardd, caffael, cyflenwi, a mewnbwn swyddog prosiect i helpu grwpiau i ddechrau arni.

Disgrifiwyd y rhaglen fel catalydd ar gyfer gweithgaredd cymunedol ehangach. Clywodd yr aelodau fod gerddi yn aml yn dechrau gyda grŵp bach o wirfoddolwyr, ond gallent ddatblygu cyfranogiad cymunedol ehangach, cynnal rhagnodi gwyrdd, cysylltu â gweithgaredd y Faner Werdd ac Eco-Sgolion, ac arwain at gyllid pellach neu brosiectau ychwanegol.

Dywedodd Neil fod y rhaglen wedi cynorthwyo miloedd o grwpiau ers 2020, gyda thua 2,000 o erddi wedi eu creu, a 1,000 o berllannau wedi eu plannu.

Y prif heriau a nodwyd oedd natur cyfalaf yn unig llawer o'r cyllid, yr ansicrwydd ynghylch cylchoedd cyllido blynyddol, cyfyngiadau ar gapasiti swyddogion prosiect, argaeledd tir, ac opsiynau cyfyngedig ar gyfer grwpiau a oedd angen dyluniadau pwrpasol y tu allan i'r model pecyn safonol.

Bu'r aelodau yn trafod pwysigrwydd cymorth parhaus, hyfforddiant, ac ymrwymiad cymunedau i sicrhau bod gerddi'n parhau i fod yn llwyddiannus ar ôl eu gosod. Cyfeiriwyd at y mater o gynnal a chadw gerddi ysgolion yn ystod cyfnodau gwyliau, gyda chyfranogiad cymunedol ehangach wedi ei nodi fel peth pwysig.

Cyfeiriodd Neil hefyd at Chwalu Rhwystrau, rhaglen a oedd yn gweithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddeall rhwystrau i gael mynediad at natur neu gyllid natur, ac i gyd-greu atebion priodol.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod mannau gwyrdd lleol yn gallu darparu cyfleoedd hygyrch i gymunedau gysylltu â natur yn agos at gartref.
- Nad oedd seilwaith ffisegol yn unig yn ddigon; bod sgiliau, hyder, cynnal a chadw a stiwardiaeth gymunedol hefyd yn bwysig.
- Bod mynediad i dir addas yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau.
- Anogwyd aelodau'r fforwm â gwybodaeth am gyfleoedd tir posibl i siarad â Cadwch Gymru'n Daclus.

Nodwyd bod cael swyddog ym mhob awdurdod lleol yn gam cadarnhaol.

## 3. Gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn cymunedau trefol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol

Helen Pye, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Mynediad ac Ysbrydoli, a Susan Jones, Rheolwr Cymunedol a Gwirfoddoli, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Amlinellodd Helen Pye ffocws strategol Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ar roi terfyn ar fynediad anghyfartal at natur a threftadaeth. Esboniodd fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ad-drefnu ei gwaith o amgylch blaenoriaethau strategol yn ddiweddar, gan gynnwys elfen a oedd yn canolbwyntio ar wella mynediad at natur, treftadaeth a lleoedd o harddwch ar gyfer cynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cyfeiriwyd at bedair cynulleidfa flaenoriaethol: pobl ar incwm isel, pobl o'r mwyafrif byd-eang, plant a phobl ifanc, a phobl anabl.

Esboniodd Helen mai uchelgais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru oedd cyrraedd 650,000 o bobl dros y 10 mlynedd nesaf, fel rhan o uchelgais sefydliadol ehangach i gynorthwyo 10 miliwn yn fwy o bobl i gael mynediad at natur a threftadaeth.

Disgrifiodd Helen dair maes gwaith: mynediad mewn lleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, partneriaethau yn seiliedig ar leoedd, a newid systemig. Cyfeiriodd at gyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi, cyllid, trafnidiaeth a gweithgaredd partneriaeth, a nododd Gymoedd y de ar gyfer gwaith partneriaeth yn seiliedig ar leoedd fel blaenoriaeth gynnar.

Rhannodd Susan Jones enghreifftiau ymarferol o waith cymunedol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Pwysleisiodd ddull yn seiliedig ar asedau, rhannu pŵer, a gweithio gyda chymunedau yn hytrach na dylunio gweithgaredd ar eu cyfer.

Roedd enghreifftiau yn cynnwys Dôl Ofalgar yn y Waun ac Erddig, a oedd yn darparu mannau â mynediad am ddim ar gyfer gorffwys a myfyrio, ac i'w defnyddio gan y gymuned leol. Disgrifiodd Susan hefyd Camp at the Castle, sef partneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Home-Start Wrecsam, a oedd yn darparu profiadau gwyliau awyr agored â chymorth i deuluoedd.

Yn ogystal, esboniodd Susan y tocyn mynediad llesiant, a ddatblygwyd gyda grwpiau a oedd yn ei ddefnyddio. Cynlluniwyd y tocyn i osgoi dull 'mynediad am ddim' trafodiadol, ac yn hytrach, darparu ffordd ddilys, werthfawr a hyblyg i grwpiau llesiant gael mynediad at leoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Tynnwyd sylw yn y cyflwyniad at sut y gallai addasiadau bach, fel manylion pàs dienw neu fynediad at gyfleusterau preifat, wneud mannau yn llawer mwy hygyrch a chroesawgar i bobl ag anghenion penodol.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod gwella mynediad at natur a threftadaeth yn gofyn am weithgarwch lleol ymarferol a newid systemig ehangach.
- Bod gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i gyrraedd cynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gallai dylunio mynediad o amgylch perthyn ac urddas fod yn fwy effeithiol na dim ond cynnig mynediad am ddim neu am bris gostyngol.
- Efallai y byddai cyfleoedd i gydweithio rhwng Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, y parciau cenedlaethol, ac aelodau eraill y fforwm.

Nododd aelod o Barc Cenedlaethol Eryri weithgarwch llesiant presennol yn y parc cenedlaethol, ac awgrymodd gyfleoedd ar gyfer cydweithredu, gan gynnwys cysylltiadau posibl â gweithgaredd awyr dywyll.

## 4. Polisi ac arferion Mannau Gwyrdd Trefol Hygyrch

Cyflwyniad i'r Polisi Mannau Gwyrdd Trefol: Pete Frost, Ymgynghorydd Seilwaith Gwyrdd Trefol, CNC

Mannau Gwyrdd Trefol Hygyrch ar waith – Abertawe, Fran Rolfe, Uwch-swyddog, Tîm Amgylchedd De Cymru, CNC a Dr Ben Reynolds, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr, Urban Foundry BCorp

Cyflwynodd Pete Frost gyd-destun y polisi ar gyfer mannau gwyrdd trefol hygyrch a seilwaith gwyrdd trefol. Dywedodd fod y galw am fannau gwyrdd lleol wedi cynyddu yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw hefyd at anghydraddoldebau o ran mynediad at erddi, parciau o ansawdd uchel, a thirweddau cenedlaethol.

Dywedodd Pete fod 72 miliwn o ymweliadau â mannau gwyrdd trefol yn ystod 2021–2022, ond bod y defnydd o fannau gwyrdd lleol wedi gostwng ers y pandemig. Esboniodd fod bron i 70% o gartrefi yng Nghymru o fewn y pellter 300 metr a argymhellir o fannau gwyrdd, a oedd yn golygu nad oedd bron i draean o'r cartrefi o fewn pellter cerdded hwylus i fannau gwyrdd.

Gan ddefnyddio Abertawe fel enghraifft, tynnodd Pete sylw at fylchau mewn mynediad at fannau gwyrdd â sicrwydd ansawdd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Cyfeiriodd at wobrau'r Faner Werdd, a gwobrau cymunedol y Faner Werdd, fel safonau ar gyfer ansawdd mannau gwyrdd, gan nodi pryderon ynghylch pwysau ariannu awdurdodau lleol, a llai o asesiad ansawdd annibynnol lle'r oedd awdurdodau yn tynnu'n ôl o'r cynllun.

Bu Pete yn trafod y mater o systemau draenio cynaliadwy, gan nodi eu bod yn fandadol mewn datblygiadau newydd yng Nghymru ers mis Ionawr 2019. Esboniodd, er bod hyn wedi helpu i integreiddio gwyrddni i ddatblygiadau newydd, fod ôl-osod gwyrddni trefol a draenio cynaliadwy i strydoedd a chymdogaethau presennol yn parhau i fod yn dipyn o her.

Cyfeiriodd Pete hefyd at becyn cymorth mannau gwyrdd a gwaith CNC gyda Llywodraeth Cymru a'r Arolwg Ordnans i gynhyrchu set ddata seilwaith gwyrdd a fyddai'n diweddaru'n awtomatig ac yn gyson ledled Cymru, ac ar gael i'w gweld ar MapDataCymru.

Cyflwynodd Fran Rolfe a Dr Ben Reynolds enghreifftiau o Abertawe yn dangos sut y cyfunwyd gwyrddu trefol, draenio cynaliadwy, adfywio, cynnwys y gymuned a chreu lleoedd. Disgrifiwyd pum egwyddor a ddefnyddid yng ngwaith seilwaith gwyrdd Abertawe: amlswyddogaethol, wedi ei addasu i newid hinsawdd, iach, bioamrywiol, a chlyfar / cynaliadwy.

Pwysleisiodd y cyflwynwyr y gwahaniaeth rhwng ymgynghori a chyfranogiad cymunedol gwirioneddol. Roedd y ddau o'r farn y dylid trin cymunedau fel partneriaid ac na ddylid dileu ymgysylltu o brosiectau drwy fesur gwerth am arian yn unig, gan y gallai ymgysylltu cynnar leihau costau hirdymor a chynyddu'r ymdeimlad o berchnogaeth dros y prosiect.

Roedd enghreifftiau yn cynnwys gerddi glaw, parciau poced, palmentydd athraidd, gerddi pen to, waliau gwyrdd, toeau gwyrdd, a gwyrddu trefol yn gysylltiedig â theithio llesol, adfywio, ac amcanion ansawdd dŵr. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd uno ffrydiau ariannu ac amcanion fel bod cynlluniau yn ymddangos yn gydlynol i gymunedau.

Roedd cyfyngiadau ymarferol yn cynnwys bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth, problemau dylunio ac adeiladu, gofynion cynnal a chadw, yr angen am sgyrsiau â chontractwyr, a phwysigrwydd peidio â thrin gwirfoddolwyr fel gweithwyr cynnal a chadw di-dâl.

Tynnwyd sylw hefyd at fanteision gwyrddu trefol i'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys enghreifftiau lle'r oedd delweddu thermol yn dangos gwahaniaethau tymheredd sylweddol rhwng arwynebau trefol caled ac ardaloedd gwyrdd.

Cyfeiriodd y cyflwynwyr at waith monitro arfaethedig a Chynhadledd Seilwaith Gwyrdd Trefol Cymru i'w chynnal ym mis Chwefror yn Arena Abertawe.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod mynediad at fannau gwyrdd yn dibynnu ar ansawdd, agosrwydd, defnyddioldeb, a chynnal a chadw, nid dim ond ar bresenoldeb mannau gwyrdd. Nodwyd bod canllawiau ategol yn cael eu darparu gan ganllawiau Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru ar hamdden a mannau agored.
- Bod gwyrddu trefol yn gallu cyfrannu at iechyd, llesiant, bioamrywiaeth, rheoli dŵr, adfywio ac addasu i'r hinsawdd.
- Bod cyfranogiad cymunedol, sgiliau, cynnal a chadw a gweithio traws-sector yn hanfodol i lwyddiant hirdymor.

Nodwyd bod gan Abertawe enghreifftiau o alinio adfywio, priffyrdd, teithio llesol, rheoli dŵr ac amcanion cymunedol.

## 5. Gwersylla gwyllt; Gwerth cymdeithasol a dulliau rheoli

Eben Muse, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru, Cyngor Mynydda Prydain

Rhoddodd Eben Muse gyflwyniad ar waith Cyngor Mynydda Prydain ar wersylla gwyllt, gan gynnwys gwerth cymdeithasol gwersylla gwyllt a dulliau o reoli'n gyfrifol.

Esboniodd Eben fod Cyngor Mynydda Prydain yn ceisio cynrychioli gwersyllwyr gwyllt mewn ffordd a oedd yn cydbwyso hawliau a rhyddid â chyfrifoldeb, stiwardiaeth, a llai o effeithiau ar y byd naturiol a bywoliaethau gwledig.

Cyfeiriwyd at gefnogaeth Cyngor Mynydda Prydain i ymgyrch gwersylla gwyllt Dartmoor a'r gwaith dilynol i dynnu sylw at werth gwersylla gwyllt. Roedd hyn yn cynnwys bwrsariaeth ar gyfer pobl ifanc i rannu straeon, caneuon a fideos, swydd ceidwad tanau gwyllt yn Ardal y Copaon, cydlynu ar-lein glanhau mynyddoedd, ac adnoddau ar wersylla gwyllt cyfrifol.

Disgrifiodd Eben hefyd arolwg o fwy na 700 o wersyllwyr gwyllt, ac adroddiad arfaethedig yn archwilio sut oedd pobl yn gwersylla, eu profiadau, gwerth cymdeithasol gwersylla gwyllt, a'r berthynas rhwng mynediad, cyfrifoldeb a stiwardiaeth. Roedd themâu o'r ymchwil yn cynnwys cysylltiad â natur, llesiant ac adferiad, antur, hunanddibyniaeth, perthnasoedd a phrofiadau a rennir.
Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch canllawiau anghyson gan barciau cenedlaethol, a'r farn oedd y gallai polisi ac arfer cyfredol fod yn anghywir. Awgrymodd Eben y gallai'r

dulliau presennol greu rhwystrau i addysg awyr agored a rhannu gwybodaeth gyfrifol, er nad oeddent o reidrwydd yn atal ymddygiad anghyfrifol fel gwersylla anghyfreithlon.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar a ddylai'r Cod Cefn Gwlad ddarparu canllawiau cliriach ar wersylla gwyllt, neu a fyddai dull arall fel un yr Alban yn fwy priodol. Bu'r aelodau yn trafod y berthynas rhwng hawliau, caniatâd, Dartmoor, yr Alban, Cymru a Lloegr, a'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer gwersylla gwyllt.

Dywedodd y cadeirydd y dylai'r ffocws fod ar yr hyn yr oedd y fforwm am ei gyflawni yn ymarferol: ble'r oedd gwersylla gwyllt yn digwydd, sut y gellid annog ymddygiad cyfrifol, a sut y gellid osgoi difrod amgylcheddol.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod gwersylla gwyllt yn gallu darparu manteision cymdeithasol, llesiant a chysylltiad â natur pan wneir hynny yn gyfrifol.
- Bod gwersylla anghyfreithlon anghyfrifol, ac offer wedi eu gadael, yn effeithio ar yr amgylchedd a rheoli tir.
- Gallai gwybodaeth gyhoeddus gliriach a mwy cyson helpu i gynnal ymddygiad cyfrifol.
- Bod y berthynas rhwng hawliau, caniatâd ac arweiniad cyfrifol yn gymhleth, ac efallai y byddai angen trafodaeth bellach ar hyn.
- Bod Cyngor Mynydda Prydain wedi mynegi parodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau yn y dyfodol ar ganllawiau gwersylla gwyllt cyfrifol a datblygiadau'r Cod Cefn Gwlad.
- Bod gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol brosiect rhoi offer

## 6. Cysylltu pobl â mannau lleol – Cerddwyr Cymru

Heather Martin, Swyddog Datblygu Cymunedol, Cymru / Rebecca Brough, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth, Cerddwyr Cymru

Cyflwynodd Heather Martin drosolwg o ddau brosiect cymunedol Cerddwyr Cymru: partneriaeth Llwybrau Sir Gaerfyrddin a phrosiect Merched yn Cerdded yng Ngogledd Cymru.

Nod prosiect Partneriaeth Llwybrau Sir Gâr oedd hyfforddi gwirfoddolwyr i arolygu llwybrau â llai o flaenoriaeth, a rhoi data rhwydwaith sylfaenol i Gyngor Sir Caerfyrddin. Clywodd yr aelodau fod 149 o wirfoddolwyr wedi cael eu hyfforddi, bod mwy nag 80 o wirfoddolwyr wedi cynnal o leiaf un arolwg, bod tua 920 cilometr o lwybrau wedi cael eu harolygu, bod 149 o broblemau wedi cael eu datrys, a bod 35 o glwydi wedi cael eu gosod yn lle camfeydd.

Esboniodd Heather fod y prosiect wedi symud i drydedd flwyddyn gan ganolbwyntio ar fodel ‘mabwysiadu llwybr’, gyda thargedau’n cynnwys mabwysiadu 20 o lwybrau, ymgysylltu â 50 o wirfoddolwyr newydd, ‘teithiau tocio’ misol, diwrnodau ceidwaid, a digwyddiadau i ddiolch i wirfoddolwyr.

Yna, trafodwyd y prosiect Merched yn Cerdded, a ariannwyd yn wreiddiol drwy grant gan Gronfa Arloesi Actif Gogledd Cymru, a oedd yn anelu at gynyddu gweithgarwch ymhlith merched ifanc 18–25 oed yng Nghaergybi, y Rhyl a Wrecsam.

Esboniodd Heather fod y prosiect wedi dysgu bod gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol na hysbysebu yn gyffredinol i unigolion. Roedd y prosiect wedi gweithio’n arbennig o dda gyda phrosiect Barod, ac yr oedd bellach wedi ei ymestyn tan fis Medi 2027.

Yn ail gam y prosiect, roedd yn parhau i fod ar gyfer merched yn unig, ond nodwyd ei fod wedi ehangu’r ystod oedran i ferched 18 oed a hŷn. Y bartneriaeth gryfaf ar hyn o bryd oedd un gyda Chanolfan Menywod Gogledd Cymru yn y Rhyl, lle’r oedd 40 o fenywod wedi ymgysylltu ers mis Mawrth, ac roedd grŵp wythnosol rheolaidd wedi datblygu.

Nodwyd bod y prosiect yn ystyried cynaliadwyedd, gan gynnwys hyfforddiant i arweinwyr teithiau cerdded, ac yn parhau i archwilio cyfleoedd yn Wrecsam a Chaergybi.

Holodd yr aelodau ynghylch prosiect Barod, a ddisgrifiwyd fel rhaglen yn cynorthwyo pobl ifanc nad oedd eto’n barod i weithio, ac yn eu helpu i feithrin hyder a sgiliau defnyddiol.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch a fyddai llwybrau gwell yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hyrwyddo ar-lein neu drwy adnoddau llwybrau, a chyfeiriwyd at adnoddau llwybrau cerdded yn yr Alban. Nodwyd bod hyrwyddo llwybrau i’r cyhoedd yn cael ei ystyried yn waith a oedd yn parhau i ddatblygu.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod arolygu llwybrau gan wirfoddolwyr yn gallu darparu data sylfaenol gwerthfawr i awdurdodau lleol.
- Bod gwaith gwella llwybrau yn gallu cynorthwyo mynediad cymunedol lle byddai’n gysylltiedig â hyrwyddo llwybrau a gwelliannau hygyrchedd.
- Bod darparu llwybrau cerdded i ferched yn unig yn gallu helpu i fynd i’r afael â rhwystrau i gymryd rhan.
- Bod partneriaeth â sefydliadau dibynadwy yn gallu bod yn fwy effeithiol na recriwtio cyffredinol.

Nodwyd bod hyder, cludiant, cost, cyfarwyddyd a rhwystrau cymdeithasol i gyd yn effeithio ar gyfranogiad.

## 7. Gweithio i gysylltu cymunedau lleol â mannau gwyrdd

Helen Donnan, Swyddog Maes Mynediad Cymdeithas Ceffylau Prydain, Cymru, Cymdeithas Ceffylau Prydain

Rhoddodd Helen Donnan gyflwyniad ar waith Cymdeithas Ceffylau Prydain i gefnogi mynediad ar gyfer marchogion, a chysylltu cymunedau â’r rhwydwaith marchogaeth.

Tynnwyd sylw at waith gwirfoddolwyr Cymdeithas Ceffylau Prydain a grwpiau mynediad ar gyfer marchogaeth cysylltiedig wrth wella llwybrau ceffylau, cefnogi cyfleoedd marchogaeth diogel, a chydweithio ag awdurdodau lleol. Esboniodd Helen fod llawer o farchogion yn cadw eu ceffylau yn agos at gartref, yn aml ar gyrion ardaloedd trefol, ac efallai y byddai angen iddynt ddefnyddio’r ffordd fawr i gyrraedd llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, a chilffyrdd a oedd ar agor i bob traffig.

Clywodd yr aelodau, er bod marchogion yn ddefnyddwyr ffyrdd cyfreithlon, fod llawer yn ffafrio marchogaeth yn ddiogel oddi ar y ffordd lle bo modd. Dywedodd Helen y gallai hen safleoedd diwydiannol, tramffyrdd segur, a llwybrau rheilffordd segur ddarparu cyfleoedd pwysig ar gyfer mynediad diogel oddi ar y ffordd fawr i farchogion.

Enghraifft o hyn oedd datblygu corlan geffylau ym Mharc Gwledig Barry Sidings ger Pontypridd. Cafodd y cyfleuster ei ddarparu drwy waith partneriaeth rhwng gwirfoddolwyr Cymdeithas Ceffylau Prydain, grŵp mynediad cysylltiedig, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Esboniodd Helen fod y gorlan yn darparu lle diogel i farchogion aros wrth ymweld â’r parc gwledig, yn hytrach na chlymu ceffylau i goed neu strwythurau anaddas eraill. Er bod y cyfleuster yn syml o ran dyluniad, cymerwyd tua dwy flynedd i gytuno arno a’i gyflawni, yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch sut y byddai ceffylau yn rhyngweithio â defnyddwyr eraill, fel cerddwyr, beicwyr, plant a chŵn.

Pwysleisiodd Helen y dylai mynediad cynhwysol gydnabod marchogion fel rhan o’r gymuned, a bod cyfleusterau fel corlannau yn gallu caniatáu i farchogion, cerddwyr, beicwyr a theuluoedd fwynhau mannau a rennir yn fwy diogel.

Pwyntiau a nodwyd:

- Bod trefoli, diogelwch ffyrdd, llwybrau tameidiog oddi ar y ffordd fawr, a chyllid cyfyngedig ar gyfer hawliau tramwy yn effeithio ar fynediad i farchogion.
- Bod grwpiau mynediad dan arweiniad gwirfoddolwyr yn gallu cyflawni gwelliannau ymarferol, ond y gallai hyn gymryd cryn dipyn o amser a dyfalbarhad.
- Bod angen i fannau gwyrdd a rennir ystyried ceffylau a marchogion ochr yn ochr â defnyddwyr eraill.
- Bod arwyddion clir, addysg a phartneriaeth ag awdurdodau lleol yn bwysig mewn lleoliadau a rennir.

Nodwyd bod enghraifft Barry Sidings yn darparu model ymarferol ar gyfer cyfleusterau marchogaeth mewn mannau gwyrdd cymunedol.

## Cyfraniadau ysgrifenedig

Cyfle i ofyn cwestiynau am gyfraniadau ysgrifenedig.

Siaradodd Rebecca Brough am gyfraniad Cerddwyr Cymru i'r ymgyrch mynediad a wrthodwyd a fyddai'n cael ei ddosbarthu gyda'r cofnod hwn gan nad oedd wedi ei gyflwyno mewn pryd ar gyfer y cyfraniadau ysgrifenedig a ddosbarthwyd.

## Unrhyw fater arall

**Mynediad i ddŵr / mannau glas**

Bu'r aelodau yn trafod mynediad at ddŵr a mannau glas. Tynnodd Paddle Cymru sylw at faint cyfyngedig yr hawliau mordwyo cyhoeddus, ac awgrymwyd y gallai eitem ar agenda'r fforwm yn y dyfodol ystyried mynediad, diogelwch, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, a chyfleoedd i gydweithio â Llywodraeth Cymru a CNC.

**Adnoddau cerdded digidol**

Bu'r aelodau yn trafod adnoddau canfod llwybrau a gwybodaeth am lwybrau i'r cyhoedd, gan gynnwys enghreifftiau o'r Alban ac offer presennol fel Komoot ac OS Maps. Yn ystod y drafodaeth nodwyd gwerth posibl data hawliau tramwy cyhoeddus hygyrch, a gwybodaeth am lwybrau yng Nghymru.

**Gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd a lonydd gwyrdd**

Codwyd pryderon gan yr aelodau ynghylch gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd, gan gynnwys difrod, erydu, effeithiau ar fioamrywiaeth, gwrthdaro â defnyddwyr eraill, a heriau ynghylch adrodd a gorfodi. Nodwyd yr angen am gydweithio traws-sefydliadol ac ymgysylltu gwell â'r heddlu a chyrff gorfodi eraill.

**Hawliau tramwy a chynllunio — fferm wynt Mynydd y Gaer**

Bu'r aelodau yn trafod achos fferm wynt Mynydd y Gaer, gan gynnwys pryder ynghylch y posibilrwydd o israddio cilffyrdd yn lwybrau ceffylau drwy'r broses gynllunio, a'r cynsail y gallai hyn ei osod ar gyfer hawliau mynediad.

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Trafodwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys rhwymedigaethau mynediad cyhoeddus, haenau cydweithredol, gorfodi a monitro. Dywedodd yr aelodau y gallai'r pwnc fod yn addas ar gyfer eitem ar agenda'r fforwm yn y dyfodol, yn dibynnu ar yr amseru a'r cyfleoedd i gael mewnbwn ystyrlon.

## Sylwadau i gloi – Cadeirydd

Bu'r aelodau yn trafod themâu posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd mynediad at ddŵr / mannau glas yn thema a ffefrid ar gyfer y dyfodol, gyda haenau cydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Teithio Llesol*, ac adolygiad o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig hefyd wedi eu nodi fel pynciau posibl ar gyfer y dyfodol.

**Yn y cyfarfod ym mis Mawrth, cynigiodd Fiona Clay Pool o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ofyn i gydweithiwr trafnidiaeth o'r Gymdeithas fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon pan fyddai ar yr agenda.*

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwella presenoldeb mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol, gan gynnwys ceisio adborth gan aelodau ar yr amseriad a'r lleoliad a ffefrid, a chydnabod yr heriau ymarferol a oedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid.

Roedd eitemau posibl eraill yn y dyfodol yn cynnwys gwaith dilynol ynghylch canllawiau ar gyfer digwyddiadau mawr, diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar y grant mynediad, a gwahodd uwch-arweinwyr newydd CNC i gyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Diolchodd y cadeirydd i'r siaradwyr, yr aelodau, y trefnwyr, a'r sawl a fu'n bresennol am eu cyfraniadau.

Nodwyd y byddai'r cyflwyniadau yn cael eu dosbarthu gyda'r nodyn wedi ei gadarnhau o'r cyfarfod hwn.

Cyfarfod nesaf: 24 Tachwedd 2026, ar-lein drwy gyfrwng Teams.